**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 21 Ionawr 2020 y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Martin Jones, Cemlyn Jones, Goronwy Hughes, Haf Williams, Iola Parry, Clifford Williams, Gwion Llwyd, Hefin Jones, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Alan Pritchard, Meirwen Lloyd

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**556. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod yn enwedig i'r Cynghorydd Clifford Williams yn dilyn ei law driniaeth diweddar.

**557. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**558. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**559. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Rhagfyr 2019**

Cadarnhawyd cofnodion 17 Rhagfyr 2019 ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**560. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

**561. I gymeradwyo cyllideb ar gyfer 2020 / 2021.**

Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, eglurodd y Cynghorydd Goronwy Hughes sefyllfa'r gyllideb gyfredol ar gyfer 2019 / 2020 gan dynnu sylw'r aelodau tuag at unrhyw newidiadau a gofynnir i'r cyngor gymeradwyo'r gyllideb yma.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a derbyniwyd yr addasiadau i'r gyllideb fel ac argymhellir.

Aethpwyd ymlaen wedyn ar gyfer cyllideb 2020 / 2021 a gofynnir i'r cyngor gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2020 / 2021.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cynghorydd Goronwy Hughes am fynd drwy'r gyllideb a penderfynwyd derbyn y gyllideb fel a arghymellir ar gyfer 2020 / 2021.

**562. I benderfynu ar y praesept ar gyfer 2020/ 2021.**

**Penderfynwyd:** Codi praesept ar gyfer 2020 / 2021 o £60,000

**563. I gymeradwyo paratoi strategaeth corfforaethol i'r cyngor ar gyfer y tair blynedd nesaf sydd yn sefydlu ei weledigaeth a'i anghenion ar gyfer y dyfodol**

Adroddwyd gan y clerc fod y broses o osod y praesept angen ei edrych arno. Yn ddelfrydol fe ddylai y broses o osod y praesept gychwyn o gwmpas mis Hydref / Tachwedd gyda aelodau o'r pwyllgorau yn paratoi eu nod ac amcanion ar gyfer y dyfodol.

Nodwyd nad oedd gan y cyngor strategaeth corfforaethol ar gyfer y dair blynedd a gofynnir i'r cyngor gymeradwyo cychwyn y broses o baratoi strategaeth corfforaethol ar gyfer y dair blynedd nesaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a cytuno i baratoi strategaeth gorfforaethol ar gyfer y dair blynedd nesaf.

**564. I dderbyn ac y gymeradwyo tendr ar gyfer gwaith torri gwair ar gyfer y fynwent, meysydd chwarae a llwybrau cyhoeddus.**

**Penderfynwyd**: Adroddwyd fod y tendrau ar gyfer y gytundeb wedi dod i law ac fod y dyddiad cau bellach wedi mynd heibio. Yn sgil y niferoedd o brisiau a dderbyniwyd, penderfynwyd i'r clerc anfon manylion y prisiau i'r aelodau ar gyfer pob elfen o'r gwaith. Yr aelodau wedyn i anfon eu sgôr i'r clerc.

**565. Cyfarfod Unllais Cymru Nos Fercher 22 Ionawr 2020**

Adroddwyd gan y Cadeirydd y bydd yn mynychu cyfarfod o Unllais Cymru ar Nos Fercher 2020. Yn y cyfarfodydd maent yn gofyn i'r cynghorau presennol beth sydd wedi gweithio yn dda yn eich ardal. Dyma gyfle i'r aelodau gyfleu eu syniadau / awgrymiadau.

**Penderfynwyd:** Pwysleisio ar y clwb ieuenctid

**566. I ystyried cais Cyngor Llanrug yn nghystadleuaeth gwobr pentrefi Sir Gaernarfon 2020**

Adroddwyd fod rhybudd wedi dod i law fod y gystadleuaeth yma am fodoli eleni. Gofynnir i'r cyngor ystyried os oedd am wneud cais eleni.

**Penderfynwyd:** Fod y cyngor yn rhoi cais i fewn pam mae'r manylion wedi dod i law

**567. I dderbyn diweddariad ar ein adroddiad blynyddol ac i gymeradwyo addasiadau**

Adroddwyd gan y clerc fod tipyn bach o newidiadau i'w gwneud i'r hyn a gytunwyd eisoes. Yn gyntaf nid oedd yn bosib defnyddio gwasanaeth y Post Brenhinol oherwydd roedd y drefn honno yn gweithio i'r 4ydd digid o'r cod post. Byddai hyn yn golygu i nifer fawr o'r adroddiad gael ei ddosbarthu i bentrefi cyfagos ac i Gaernarfon. Yn sgil hyn, gofynnir i'r cyngor gymeradwyo defnyddio cwmni preifat i'w dosbarthu a gellir argraffu amlenni gyda'r cyfeiriadau arnynt ac yna mater o blygu'r adroddiad a'i roi yn yr amlen. Byddai'r gost am y postio yn £518.20.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad ac awdurdodi'r clerc i symud ymlaen gyda'r addasiad

**568. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**569. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael

**570. I dderbyn adroddiad gan Cynghorydd Cemlyn Jones ar y llwybr aml pwrpas o Llanrug i Gaernarfon**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones ei fod wedi mynychu cyfarfod i ail agor y cledrau fel llwybr aml bwrpas o

**571. I gymeradwyo defnyddio arian er cof am y diweddar Cynghorydd Llywelyn Williams i brynu teledu i'w ddefnyddio yn y Sefydliad Coffa ar gyfer y clwb ieuenctid ynghyd ac hyfforddiant, cyfarfodydd ayyb, ac i roi plac ar y teledu er cof amdano.**

Adroddwyd fod arian wedi dderbyn er cof am y diweddar Gynghorydd Llywelyn Williams. Un o'r argymhellion oedd prynu teledu ar gyfer y Sefydliad Coffa ar gyfer y clwb ieuenctid, mudiadau sydd yn defnyddio'r Sefydliad ac byddai yn gallu ei ddefnyddio gan y Cyngor Cymuned ar gyfer arddangos dogfennau, ceisiadau cynllunio ayyb.

**Penderfynwyd:** Cytunwyd i symud ymlaen i brynu teledu ond i sefydlu ble yn union i'w leoli yn Y Sefydliad. Hefyd byddai angen rhoi plac arno er cof am Llywelyn

**572. I sefydlu amserlen trefniadau casglu sbwriel am y flwyddyn 2020.**

**Penderfynwyd:** Cynnal diwrnod casglu ysbwriel yn Llanrug a Cwm y Glo ar 7fed o Fawrth 2020. I gychwyn yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug am 9:30 a gwaelod Allt Goch Cwm y Glo am yr un amser

**573. I gysylltu ac Adran Iechyd ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd i drefnu casgliad a'i anfon i ffwrdd i labordy i gael gwybod yn union beth yw'r stwff sydd yn cael ei adael mewn poteli plastig o gwmpas yr ardal. Os nad yw**

**Cyngor Gwynedd yn gallu darparu'r gwasanaeth yna ei fod yn cael ei drosglwyddo i gwmni preifat.**

**Penderfynwyd:** Pan ddarganfyddir sampl ar hyd y pentref yna cyfeirio'r mater tuag at y clerc ac yna y clerc gysylltu a Chyngor Gwynedd.

**574. Placiau Coffa (Cynghorydd Hefin Jones)**

Derbyniwyd adroddiad gan y Cynghorydd Hefin Jones ar y sefyllfa parthed placiau coffa sydd wedi lleoli yn Eglwys Llanrug.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**575. Cais Cynllunio**

**Rhif y Cais:** C20/0026/23/DT

**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ

**Bwriad:** Codi estyniad deulawr i ochr yr eiddo

**Ymgeisydd:** Alaw Thomas-Davis

**Lleoliad:** 2, Tai Craig Y Don, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DL

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais ar yr amod ei fod yn cydymffurfio a sylwadau Dwr Cymru a dim gwrthwynebiad gan yr Adran Priffyrdd

**576. Gwobrau Llais Cymru 2019**

Noder fod y dyddiad cau ar gyfer hwn 25 Ionawr 2020. Argymhellir y dylem ystyried rhoi cais oddi tan y categorïau canlynol (os bydd amser yn caniatáu)

a) Gwefan Orau;
b) Adroddiad Blynyddol Orau;
c) Ymgysylltu Ieuenctid Orau;
d) Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau

Yn sil y prinder amser cyn cystadlu yn y gystadleuaeth yma penderfynwyd peidio a rhoi cais i fewn eleni ond anelu ar gyfer y flwyddyn nesaf

Daeth y cyfarfod i ben am 21:25

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: